

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Ffion Clwyd Edwards (Groes) a gweddill y teulu ym marwolaeth mam Ffion y penwythnos diwethaf. Gweddïwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt mewn ffordd arbennig ac y byddant, ynghanol eu tristwch, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt.
- Anfonwn ein cofion cynhesaf at Airys Jones (Peniel) sy'n cael gofal yn yr Inffirmari ar hyn o bryd. Rydym yn ei chyflwyno hi, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd ac yn gweddïo y bydd pob un ohonynt yn profi gofal a grym ein gweddïau drostynt.
- Rydym yn cofio'n annwyl hefyd am Mrs Gwenllian Jones (Henllan) sydd wedi symud i Gartref Gofal Plas Gwyn, Llanychan. Dymunwn Dduw yn rhwydd iddi wrth iddi setlo yno.

Hyfforddiant Diogelu Grwpiau Bregus

Mewn eglwysi lle cynhelir gwaith gyda phlant/ieuenctid/oedolion bregus, mae RHAID i bob gwirfoddolwr ac ymddiriedolwr dderbyn gwiriad trwy lenwi ffurflen DBS, a hefyd fynychu hyfforddiant Diogelu Grwpiau Bregus. Os na fydd hynny yn digwydd, ni fyddwn yn cadw at y polisi, ac ni fydd gan ein heglwysi unrhyw orchudd yswiriant ar gyfer y gwaith. Mae gwiriad DBS a hyfforddiant felly yn ofynnol, ac fe drefnwyd dau ddyddiad ar gyfer Henaduriaeth Dyffryn Clwyd pan fydd y Swyddog Hyfforddiant, Julie Edwards, yn ymweld â ni:

- Nos Iau, Hydref 26ain yng Nghapel Mynydd Seion, Abergele am 7.00
- Nos Fawrth, Tachwedd 14eg yng Nghapel y Pentre, Llanrhaeadr am 7.00

Medrwch ddewis ddod i'r naill sesiwn neu'r llall, pa un bynnag sydd fwyaf cyfleus, ond rhaid pwysleisio eto, **fod yr hyfforddiant hwn yn ofynnol i bob gwirfoddolwr sy'n gweithio gyda Grwpiau Bregus, ac i bob blaenor/swyddog yn yr Eglwysi hynny.** Os cyfyd unrhyw gwestiwn, holwch Rhodri yn y lle cyntaf, neu'r Parch. Morris P. Morris, Eiriolwr Diogelwch EBC (01824) 705961.

Pecyn Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd

Erbyn hyn, fe ddylai pob eglwys fod wedi derbyn y pecyn er mwyn medru archebu'r taflenni a phosteri ar gyfer Gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd 2018.

Os dymunwch i ni gasglu eich archeb ar eich rhan, bydd angen i chi fod wedi archebu'r deunydd **erbyn dechrau mis Tachwedd**, gan nodi'n glir ar y daflen archebu y bydd rhywun o Eglwysi Bro Aled yn dod i gasglu'r pecyn. (A fyddwch cystal â gadael i Mair wybod hynny hefyd, os gwelwch yn dda?)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 22^{ain} Hydref 2017

Darlleniad y Dydd

1 Brenhinoedd 17:12-16

(BCND tud.330 / BCN tud.301)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i'n holl oedfaon ym Mro Aled heddiw a ninnau'n cael y fraint o addoli, siarad gyda'r Un a'n creodd, a gwrandao ar ei Air sanctaidd. Wrth i ni wneud hynny, cadwn mewn cof yr adnod syfrdanol honno yn Effesiaid 3:20 sy'n cyfeirio at yr Arglwydd 'sydd â'r gallu ganddo i wneud yn anhraethol well na dim y gallwn ni ei ddeisyfu na'i ddychmygu...' Felly beth bynnag yw'n hamgylchiadau ar hyn o bryd, neu'r ofnau yr ydym yn eu hwynebu, yn Iesu Grist mae gennym ffordd i ddod at Dduw sy'n Dad, a hwnnw'n Dad Hollalluog i'n cynnal a'n harwain.

Ar ddechrau'r wythnos, cyn-gorwynt Ophelia oedd yn cael y rhan fwyaf o sylw ar y newyddion. Pryd fyddai'r gwaethaf yn ein cyrraedd, beth oedd yn debygol o gael ei effeithio, ac yna adroddiadau'n croniclo faint o ddinistr yn union a achoswyd. Ac wrth ddilyn y gwahanol straeon newyddion a rhagolygon y tywydd, daeth yn amlwg fod eich lleoliad daeryddol yn debygol o wneud cryn wahaniaeth i'ch bywyd. Yn Iwerddon, lle'r oedd y storm ar ei chryfaf, caewyd yr holl ysgolion a'r prifysgolion a gohiriwyd yr holl fordeithiau rhwng yr ynys a Chymru. Ond yn ne-ddwyrain Lloegr ar y llaw arall, lliw rhyfedd ar yr haul oedd yr unig beth nodedig i ddod yn sgil Ophelia!

Hanes digon rhyfedd sy'n cael ei gofnodi yn ein darlleniad o 1 Brenhinoedd 17 heddiw, ond mae lleoliad y digwyddiadau hyn yn bwysig: mae Iesu ei hun yn cyfeirio at yr hanes am y proffwyd Elias a'r weddw o Sarepta yn Luc 4:25-26. Yno clywn Iesu'n dysgu yn y Synagog yn Nasareth gan egluro fod y gwrthodiad ohono Ef (dim croeso i broffwyd ym mro ei febyd - ad. 24), yn dilyn patrwm Beiblaidd cyffredin. Yn aml, gwelwyd proffwydi Duw yn cael eu gwrthod gan bobl yr Arglwydd cyn iddynt fynd at y Cenedloedd paganidd. Arweiniwyd Elias yn 1 Brenhinoedd 17 i ganol tir annuwiol Sidon lle byddai pobl yn addoli duwiau Baal, ac yn y fan honno mae gallu rhyfeddol Duw yn cael ei amlygu i'r weddw druan sydd mor brin o fwyd. Er ei bod ar lwgu a'i chypyrddau'n wag, mae cais ac anogaeth Elias y byddai Arglwydd Dduw Israel yn gweithredu yn arwain at ddarlun hyfryd o ffydd. Mae'r weddw yn mentro'r cyfan sydd ganddi ar Air yr Arglwydd a thrwy drugaredd Duw yn derbyn o'i haelioni rhyfeddol sy'n ei chynnal hi a'i theulu ddydd ar ôl dydd. Er ei bod yn dod o gefndir gwahanol i'r Israeliaid, mae Duw yn dangos ei gariad a'i allu iddi yn ei hangen. Wrth i ni ystyried ein cyflwr ninnau heddiw, diolchwn fod Iesu Grist wedi dod i fyw a marw er mwyn i ni allu derbyn o haelioni Duw yn dragywydd. Gweddïwn am oleuni i weld cymaint yr ydym ei angen, a ffydd i fentro'r cwbl arno.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Iago 1:16-18 (BCND tud.251 / BCN tud.230)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 22^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwawr Davies, a bydd Celfyn Williams yn pregethu.
- Mawrth – 24^{ain} ➤ **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Mercher – 25^{ain} ➤ **CIC + (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion)** ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog o 4.00-5.30.
- **Torri Syched y dynion** (*grŵp tŷ*) am 7.30.
- **Torri Syched y merched** (*grŵp tŷ*) am 7.30.
- Iau – 26^{ain} ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **Hyfforddiant Diogelu Grwpiau Bregus** (*gweler trosodd*) yng Nghapel Mynydd Seion, Abergele am 7.00.
- Sul nesaf – 29^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro ar Daith** am 6.00 – y tro hwn yn Saron. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd Gwion yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 22^{ain} ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 29^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 22^{ain} ➤ Bydd y Parch. Dafydd Job yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mercher – 25^{ain} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 29^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 22^{ain} ➤ Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yno am 2.00.
- Sul nesaf – 29^{ain} ➤ Bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Cyhoeddiadau

Henllan a Groes

- Sul yma – 22^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deulu i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 29^{ain} ➤ Bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 a bydd Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 22^{ain} ➤ Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 29^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

I ddod

- **PENWYTHNOS IEUENCTID (BL. 7-11)** yng Ngholeg y Bala, Tachwedd 3ydd–5ed. Mae £20 o ostyngiad i bob unigolyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Bydd angen anfon y ffurflen i archebu lle ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala erbyn Hydref 23ain neu mor fuan â phosibl wedi hynny. Gallwch lawrlwytho ffurflen i archebu lle trwy fynd i'r wefan: colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg, neu holwch Gwion am ffurflen.
- **OEDFA DIOLCHGARWCH CAPEL CEFN BERAIN** nos Wener, Tachwedd 10fed am 7.00 gyda'r Parch. Dafydd Rees Roberts yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- **CYNHADLEDD UNDYDD DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD** yng Nghapel Tegid, Y Bala dydd Mercher, Tachwedd 15fed o 10.00 – 3.00.

Manylion Cyswilt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.